OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2876 (Cy.250)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Gwneir y Gorchymyn hwn o dan baragraff 25(2) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007 (p.15) ("y Ddeddf"). Mae'n diwygio'r rhestr o "dribiwnlysoedd a restrir" y darperir ar eu cyfer ym mharagraff 25(1) o'r Atodlen honno.

Mae adran 44 o'r Ddeddf yn darparu ar gyfer sefydlu Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd i ddisodli'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd.

Mae Atodlen 7 yn gwneud darpariaeth ar gyfer aelodaeth y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd a'i bwyllgorau. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â swyddogaethau'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, megis adolygu'n barhaus faterion yn ymwneud â'r "tribiwnlysoedd a restrir", eu hystyried ac adrodd arnynt, ac mewn perthynas ag ymgynghori ynghylch rheolau ar gyfer y tribiwnlysoedd hynny.

Pan ddaeth y Ddeddf i rym y ddau dribiwnlys newydd y darparwyd ar eu cyfer ym mharagraff 25(1) o Atodlen 7 oedd yr unig "dribiwnlysoedd a restrir", sef y Tribiwnlys Haen Gyntaf a'r Uwch Dribiwnlys.

Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu at y "tribiwnlysoedd a restrir" yr holl endidau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn "awdurdod priodol" mewn perthynas â hwy at ddibenion paragraff 25(2) o Atodlen 7 ac y mae'r Cyngor ar Dribiwnlysoedd mewn perthynas â hwy yn adolygu materion yn barhaus, yn eu hystyried ac yn adrodd arnynt, er mwyn sicrhau bod y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yn disodli'n briodol y Cyngor ar Dribiwnlysoedd.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 2876 (W.250)

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

## The Administrative Justice and Tribunals Council (Listed Tribunals) (Wales) Order 2007

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order is made under paragraph 25(2) of Schedule 7 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007 (c.15) ("the Act"). It amends the list of "listed tribunals" provided for in paragraph 25(1) of that Schedule.

Section 44 of the Act provides for the establishment of the Administrative Justice and Tribunals Council to replace the Council on Tribunals.

Schedule 7 makes provision for membership and committees of the Administrative Justice and Tribunals Council. It also makes provision in relation to the functions of the Administrative Justice and Tribunals Council, such as keeping under review, considering and reporting on matters relating to the "listed tribunals", and being consulted on rules for them.

On the coming into force of the Act the only "listed tribunals" were the two new tribunals provided for in paragraph 25(1) of Schedule 7, being the First-tier Tribunal and the Upper Tribunal.

This Order adds to the "listed tribunals" all those entities in relation to which the Welsh Ministers are the "appropriate authority" for the purposes of paragraph 25(2) of Schedule 7 and in relation to which the Council on Tribunals keeps under review, considers and reports on matters, in order to ensure that the Administrative Justice and Tribunals Council properly replaces the Council on Tribunals.

Yn gyffredinol, mae paragraff 27 o Atodlen 7 yn darparu mai Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod sy'n gyfrifol am dribiwnlys os yw swyddogaethau'r tribiwnlys yn arferadwy o ran Cymru, a chan Weinidogion Cymru y mae'r unig bwer naill ai i benodi ei aelodau (neu, yn achos tribiwnlys sy'n arfer swyddogaethau o ran Cymru a mannau eraill, i benodi'r aelodau sy'n arfer swyddogaethau o'r fath o ran Cymru) neu i wneud rheolau gweithdrefnol ar gyfer y tribiwnlys neu i wneud y ddau beth hynny.

Broadly speaking, paragraph 27 of Schedule 7 provides that the Welsh Ministers are the responsible authority for a tribunal if the tribunal's functions are exercisable in relation to Wales and the Welsh Ministers have the sole power to either appoint its members (or, in the case of a tribunal that exercises functions in relation to Wales and elsewhere, to appoint the members who exercise such functions in relation to Wales) or to make procedural rules for the tribunal or to do both of those things.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 Rhif 2876 (Cy.250)

# TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *3 Hydref 2007* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *4 Hydref 2007* |
| *Yn dod i rym* | *1 Tachwedd 2007* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan baragraff 25(2) o Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007(**1**):

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007; mae'n gymwys o ran Cymru ac mae'n dod i rym ar 1 Tachwedd 2007.

**Rhestr o dribiwnlysoedd**

**2**. Mae'r tribiwnlysoedd a welir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn yn dribiwnlysoedd a restrir at ddibenion Atodlen 7 i Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 No. 2876 (W.250)

# TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

## The Administrative Justice and Tribunals Council (Listed Tribunals) (Wales) Order 2007

| | |
|---|---|
| *Made* | *3 October 2007* |
| *Laid before the National Assembly for Wales* | *4 October 2007* |
| *Coming into force* | *1 November 2007* |

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred on them by paragraph 25(2) of Schedule 7 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007(**1**):

**Title, application and commencement**

**1**. The title of this Order is the Administrative Justice and Tribunals Council (Listed Tribunals) (Wales) Order 2007; it applies in relation to Wales and comes into force on 1 November 2007.

**List of tribunals**

**2**. The tribunals shown in the Schedule to this Order are listed tribunals for the purposes of Schedule 7 to the Tribunals, Courts and Enforcement Act 2007.

*Rhodri Morgan*

Prif Weinidog Cymru, un o Weinidogion Cymru

First Minister for Wales, one of the Welsh Ministers

3 Hydref 2007

3 October 2007

(**1**) 2007 p.15.

(**1**) 2007 c.15.

## YR ATODLEN

## TRIBIWNLYSOEDD A RESTRIR

| *Tribiwnlys* | *Deddfwriaeth* |
|---|---|
| Pwyllgorau Cymru. | Adran 27 o Ddeddf Coedwigaeth 1967 (p.10)(**1**). |
| Pwyllgorau Asesu Rhenti yng Nghymru. | Adran 65 ac Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (p.42)(**2**). |
| Tribiwnlysoedd Prisio yng Nghymru. | Rheoliadau a wnaed o dan Atodlen 11 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p.41)(**3**). |
| Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru neu Special Educational Needs Tribunal for Wales | Adran 336ZA o Ddeddf Addysg 1996 (p.56) (**4**). |

## SCHEDULE

## LISTED TRIBUNALS

| *Tribunal* | *Legislation* |
|---|---|
| Committees for Wales. | Section 27 of the Forestry Act 1967 (c.10)(**1**). |
| Rent Assessment Committees in Wales. | Section 65 and Schedule 10 to the Rent Act 1977(c.42)(**2**). |
| Valuation Tribunals in Wales. | Regulations made under Schedule 11 to the Local Government Finance Act 1988 (c.41) (**3**). |
| Special Educational Needs Tribunal for Wales or Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. | Section 336ZA of the Education Act 1996(c.56) (**4**). |

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf Coedwigaeth 1967 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), ac maent wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf Rhenti 1977 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), ac maent wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), ac maent wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**4**) Mewnosodwyd adran 336ZA gan Ddeddf Addysg 2002 (p.32), adran 195 ac Atodlen 18, paragraffau 1 a 5. Mae adran 336ZA (1) yn sefydlu Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru. Mae adran 336ZA yn darparu bod adrannau 333 i 336 o Ddeddf Addysg 2002 yn gymwys mewn perthynas â Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru fel y maent yn gymwys i'r Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd, ond fel pe bai swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38), fel pe bai cyfeiriadau at yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfeiriadau at y Cynulliad, ac fel pe bai gofyniadau am gydsyniad y Trysorlys wedi eu hepgor. Mae swyddogaethau'r Cynulliad o dan adrannau 333 i 336 (fel y'u haddaswyd gan adran 336ZA(2)) wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**1**) Functions under the Forestry Act 1967 were transferred to the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, and have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**2**) Functions under the Rent Act 1977 were transferred to the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, and have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**3**) Functions under the Local Government Finance Act 1988 were transferred to the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1, and have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**4**) Section 336ZA was inserted by the Education Act 2002 (c.32), section 195 and Schedule 18, paragraphs 1 and 5. Section 336ZA (1) establishes the Special Educational Needs Tribunal for Wales. Section 336ZA provides that sections 333 to 336 of the Education Act 2002 apply in relation to the Special Educational Needs Tribunal for Wales as they apply to the Special Educational Needs and Disability Tribunal, but as if functions of the Secretary of State were functions of the National Assembly for Wales constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38), references to the Secretary of State were references to the Assembly, and requirements for the Treasury's consent were omitted. Functions of the Assembly under sections 333 to 336 (as modified by section 336ZA(2)) have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

| *Tribiwnlys* | *Deddfwriaeth* |
|---|---|
| Dyfarnwyr parcio yng Nghymru. | Adran 73 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40)(**1**)(**2**). |
| Panelau apelau derbyn yng Nghymru. | Adran 94(5) neu 95(3) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31)(**3**). |
| Tribiwnlys. | Paragraff 10(2) o Atodlen 26 i Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 (p.31)(**4**). |

| *Tribunal* | *Legislation* |
|---|---|
| Parking adjudicators in Wales. | Section 73 of the Road Traffic Act 1991 (c.40)(**1**)(**2**). |
| Admission appeal panels in Wales. | Section 94(5) or 95(3) of the School Standards and Framework Act 1998 (c.31) (**3**). |
| Tribunal. | Paragraph 10(2) of Schedule 26 to the School Standards and Framework Act 1998 (c.31)(**4**). |

(**1**) Addaswyd adran 73 a darpariaethau eraill Deddf Traffig Ffyrdd 1991 er mwyn rhoi swyddogaethau gan Orchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Castell-nedd Port Talbot) 1999 (O.S. 1999/1288), Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gaerfyrddin) 2004 (O.S. 2004/104 (Cy.11)) erthygl 4 ac Atodlen 1 paragraff 4, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ddinbych) 2004 (O.S. 2004/1608 (Cy.167)) erthygl 5 ac Atodlen 1 paragraff 4, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Bwrdeisdref Sirol Conwy) 2006 (O.S. 2006/1791 (Cy.187)) erthygl 5 ac Atodlen 1 paragraff 4, Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Gwynedd) 2007 (O.S. 2007/714 (Cy.62)) erthygl 5 ac Atodlen 1 paragraff 4, a Gorchymyn Traffig Ffyrdd (Ardal Barcio a Ganiateir ac Ardal Barcio Arbennig) (Sir Ynys Môn) 2007 (O.S. 2007/1043 (Cy.103)) erthygl 5 ac Atodlen 1 paragraff 4 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38). Mae'r swyddogaethau hynny wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**2**) Diddymir adran 73, a darpariaethau eraill Deddf Traffig Ffyrdd 1991, gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004 (p.18), adran 98 ac Atodlen 12, Rhan 1. Mae Deddf Rheoli Traffig 2004 wedi ei chychwyn yn rhannol o ran Cymru gan Orchymyn Deddf Rheoli Traffig 2004 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2006 (O.S.2006/2826 (Cy.249)), erthygl 2, ond mae Rhan 1 o Atodlen 12 yn dal heb ei chychwyn o ran Cymru.

(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, (O.S. 1999/672) Erthygl 2 ac Atodlen 1 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru (p.38), ac maent wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**4**) Gweler y troednodyn blaenorol.

(**1**) Section 73 and other provisions of the Road Traffic Act 1991 have been modified so as to confer functions on the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) by the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of Neath Port Talbot) Order 1999 (S.I. 1999/1288), the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of Carmarthenshire) Order 2004 (S.I. 2004/104 (W.11)) article 4 and Schedule 1 paragraph 4, the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of Denbighshire) Order 2004 (S.I. 2004/1608 (W.167)) article 5 and Schedule 1 paragraph 4, the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County Borough of Conwy) Order 2006 (S.I. 2006/1791 (W.187)) article 5 and Schedule 1 paragraph 4, the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of Gwynedd) Order 2007 (S.I. 2007/714 (W.62)) article 5 and Schedule 1 paragraph 4, and the Road Traffic (Permitted Parking Area and Special Parking Area) (County of the Isle of Anglesey) Order 2007 (S.I. 2007/1043 (W.103)) article 5 and Schedule 1 paragraph 4. Those functions have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**2**) Section 73, and other provisions of the Road Traffic Act 1991, are repealed by the Traffic Management Act 2004 (c.18), section 98 and Schedule 12, Part 1. The Traffic Management Act 2004 has been partly commenced in relation to Wales by the Traffic Management Act 2004 (Commencement No.1) (Wales) Order 2006 (S.I.2006/2826 (W.249)), article 2, but Part 1 of Schedule 12 has yet to be commenced in relation to Wales.

(**3**) Functions under the School Standards and Framework Act 1998 were transferred to the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999, (S.I. 1999/672) Article 2 and Schedule 1, and have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**4**) See preceding footnote.

| *Tribiwnlys* | *Deddfwriaeth* |
|---|---|
| Tribiwnlysoedd achosion neu dribiwnlysoedd achosion interim a dynnir o'r panel dyfarnu ar gyfer Cymru. | Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22)(**1**). |
| Panelau apelau yn erbyn gwaharddiadau. | Paragraff 2 o'r Atodlen i Reoliadau Addysg (Gwahardd Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/3227)(**2**). |
| Tribiwnlys. | Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005 (p.18)(**3**). |
| Panelau annibynnol yng Nghymru. | Rheoliad 21(1) o Reoliadau Gweithdrefn Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2005 (O.S. 2005/3366)(**4**). |
| Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru mewn cysylltiad â'u swyddogaethau o dan Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Pwyllgorau Gwasanaeth a Thribiwnlys) 1992 (1992/664). | Adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42). |

| *Tribunal* | *Legislation* |
|---|---|
| Case tribunals or interim case tribunals drawn from the adjudication panel for Wales. | Section 76 of the Local Government Act 2000 (c.22)(**1**). |
| Exclusion appeal panels in Wales. | Paragraph 2 of the Schedule to the Education (Pupil Exclusion and Appeals) (Maintained Schools) (Wales) Regulations 2003 (S.I. 2003/3227)(**2**). |
| Tribunal. | Schedule 3 to the Education Act 2005 (c.18)(**3**). |
| Independent panels in Wales. | Regulation 21(1) of the Social Services Complaints Procedure (Wales) Regulations 2005(S.I. 2005/3366)(**4**). |
| Local Health Boards in Wales in respect of their functions under the National Health Service (Service Committees and Tribunal) Regulations 1992 (1992/664). | Section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42). |

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p.22) i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**2**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan y Rheoliadau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**3**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan Ddeddf Addysg 2005 wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**4**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan y Rheoliadau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**1**) Functions of the National Assembly for Wales constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Local Government Act 2000 (c.22) have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**2**) Functions of the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Regulations have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**3**) Functions of the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Education Act 2005 have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**4**) Functions of the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Regulations have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

| *Tribiwnlys* | *Deddfwriaeth* |
|---|---|
| Panelau annibynnol yng Nghymru. | Rheoliad 4 o Reoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/3100)(**1**). |
| Panel o ganolwyr meddygol. | Paragraff 3 of Atodiad 2 i Orchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (O.S. 2007/1072)(**2**). |

| *Tribunal* | *Legislation* |
|---|---|
| Independent panels in Wales. | Regulation 4 of the Independent Review of Determinations (Adoption) (Wales) Regulations 2006 (S.I. 2006/3100)(**1**). |
| A board of medical referees. | Paragraph 3 of Annex 2 to the Firefighters` Pension Scheme (Wales) Order 2007 (S.I. 2007/1072)(**2**). |

(**1**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan y Rheoliadau wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**2**) Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a gyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p.38)) o dan y Gorchymyn wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), Atodlen 11 paragraff 30.

(**1**) Functions of the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Regulations have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

(**2**) Functions of the National Assembly for Wales constituted by the Government of Wales Act 1998 (c.38) under the Order have been transferred to the Welsh Ministers by the Government of Wales Act 2006 (c.32), Schedule 11 paragraph 30.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2007 Rhif 2876 (Cy.250)

# 2007 No. 2876 (W.250)

## TRIBIWNLYSOEDD AC YMCHWILIADAU, CYMRU

## TRIBUNALS AND INQUIRIES, WALES

Gorchymyn Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd (Tribiwnlysoedd a Restrir) (Cymru) 2007

The Administrative Justice and Tribunals Council (Listed Tribunals) (Wales) Order 2007

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2007

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2007

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

**£3.00**

W163/10/07 ON